

Hysbysiad o Benderfyniad: Ad-drefnu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf

Penderfynodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Ebrill 2019 i weithredu'r cynigion canlynol:

- Agor Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 - ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Treorci ar 1 Medi 2019.
- Agor Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Nant-gwyn ar 1 Medi 2019.
- Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Caradog a'i symud i Ysgol Gynradd Cwm-bach. Bydd hyn yn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 a fydd ar gael o 1 Medi 2019.
- Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys a'i symud i Ysgol Gynradd y Maerdy. Bydd hyn yn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 a fydd ar gael o 1 Medi 2019.
- Ail-bennu 1 Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Parc y Darren ac 1 Dosbarth Arsylwi ac Asesu - Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llantrisant i ddod yn 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu Asesu ac Ymyriad y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol. Bydd y ddau ddosbarth yma'n weithredol o 1 Medi 2019.
- Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn ar 31 Awst - fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
- Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys ar 31 Awst 2019 - fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
- Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun ar 31 Awst 2019 - fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
- Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith ar 31 Awst 2019 - fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
- Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn ar 31 Awst - fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.

- Newid cytunedig i'r cynnig mewn perthynas â chau'r Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Caradog. Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu bellach yn cau ar 31 Awst 2023 ac nid y 31 Awst 2019. Bydd hyn yn sicrhau na fyddai'r cynnig yma'n effeithio ar unrhyw ddisgybl. O hyn ymlaen, fydd dim plant yn cael eu rhoi yn y dosbarth yma.

Serch hynny, byddwn ni'n adolygu'r penderfyniad yma yn seiliedig ar lefel yr alw, tan fis Awst 2023.

Cafodd y rhesymau dros y cynigion, a'r rhesymeg y tu ôl iddyn nhw, ynghyd â rhesymau dros y penderfyniad yma i'w gweithredu nhw eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang ym mis Hydref 2018. Yn ogystal â hynny, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth lawn i'r holl sylwadau a ddaeth i law yn dilyn y broses ymgynghori a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018, ynghyd â'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol fis Mawrth 2019. Mae crynodeb o'r rhesymau dros y penderfyniad i weithredu'r cynigion isod:

- Mynd i'r afael â nifer sylweddol o leoedd gwag mewn rhai darpariaethau cynradd;
- Mynd i'r afael â'r ddarpariaeth annigonol yn y sector uwchradd;
- Mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth arbenigol ar draws y cyfnodau allweddol ar safleoedd rhai ysgolion sy'n golygu bod rhaid i rai disgyblion gael eu trosglwyddo'n ddiangen;
- Sicrhau bod Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cael budd o symud i ysgolion sy wedi buddio o'r rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif;
- Sicrhau bod darpariaeth ddigonol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr y blynyddoedd cynnar.

Mae'r ad-drefniad yn sicrhau caiff adnoddau eu defnyddio mewn ffordd well, a'u bod yn cael eu defnyddio er mwyn gwella'r ddarpariaeth gyfredol er mwyn bodloni anghenion disgyblion RhCT, ac i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r penderfyniad yma yn sicrhau continwwm gwell o ddarpariaeth AAA yn RhCT.

Bydd y cynnig yma i aildrefnu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd cynhwysiant mwy effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag amrywiaeth o Anghenion Addysgol Arbennig, a darpariaeth fwy teg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig dwys.

Ceir manylion pellach am y crynodeb yn y ddogfen ymgynghori a ddosbarthwyd yn eang i'r holl ymgynghoreion ym mis Hydref 2018. Mae'r ddogfen yma ar gael o hyd ar wefan y Cyngor i unrhyw un ei gweld.

Casgliad y Cabinet, felly, wrth wneud eu penderfyniad terfynol oedd cymeradwyo'r cynigion fel y'u cyhoeddwyd yn yr Hysbysiad Statudol, ac eithrio cau darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Gynradd Caradog a fydd yn cau ar 31 Awst 2023 ac nid ar 31 Awst 2019 fel y nodir yn yr hysbysiad statudol. Mae'r holl waith yn amodol ar ganlyniad boddhaol y cydsyniadau statudol perthnasol.

